

Lewis Edwards a Brad y Dysgedigion

Ioan Williams

Crynodeb: Mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar dri thraethawd yn ymdrin â Samuel Taylor Coleridge ac Immanuel Kant a gyhoeddwyd gan y diwinydd a'r dysgedydd, Lewis Edwards, yn *Y Traethodydd* rhwng 1846 a 1853. Ystyrir Edwards yma yn gynrychiolydd arweinwyr crefyddol Cymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac archwiler ei waith am dystiolaeth o'r agwedd tuag at ddatblygiadau athronyddol y cyfnod a allai gynnig esboniad am ei fethiant i amddiffyn yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn wyneb ymlediad y Saesneg.

Y ddadl a roddir gerbron yma yw bod ymlyniad Edwards i resymoliaeth ddyfaliadol, sy'n sail i ddiwinyddiaeth Galfinaidd y cyfnod, yn ei atal rhag ymateb yn uniongyrchol i sialens ddeallusol y cyfnod modern. Yn y tri thraethawd hyn, sy'n cyflwyno meddwl Kant fel y'i mynegir yn ei *Kritik* cyntaf, ynghyd â diwinyddiaeth athronyddol Coleridge fel a geir yn *Aids to Reflection*, cawn dystiolaeth glir o amharodrwydd Edwards i ymgymryd ag unrhyw sialens i'r athroniaeth Galfinaidd. Y mae'r darlun a gyflwyna o feddwl y ddau awdur yn ddiffygiol ac yn gamarweiniol. Rhan bwysig iawn o *Kritik* Kant ac *Aids* Coleridge oedd eu beirniadaeth ysgubol o resymoliaeth ddyfaliadol. Dewisodd Edwards anwybyddu hyn yn gyfan gwbl er mwyn cynnal ei gred yng ngallu dyn i ymestyn at y gwirionedd trwy gyfrwng sythwelediad deallusol, heb gyfeirio at brofiad empeiraidd.

Dadleuir mai'r dallineb ewyllysgar hwn tuag at y meddwl modern oedd un o'r prif ffactorau a oedd yn symbylu'r brad y cyhuddir Edwards a'i gyfoedion ohono. Awgrymir hefyd bod y brad hwnnw'n tansailio nid yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn unig, ond y grefydd Galfinaidd yr oedd Edwards mor awyddus i'w hamddiffyn. Wrth ymwrthod â sialens y meddwl modern, gadawodd Edwards ei ddisgyblion heb gyfrwng i addasu'r athrawiaeth draddodiadol i ofynion synwyrusrwydd cyfnewidiol. A chanlyniad hynny yn y pendraw oedd ymddieithrwydd oddi wrth y gorffennol Ymneilltuol, sydd yn parhau i effeithio arnom heddiw.

Allweddeiriau: Samuel Taylor Coleridge, Immanuel Kant, Lewis Edwards, Calfiniaeth, Ymneilltuaeth.

Lewis Edwards and the ‘trahison des clercs’

Abstract: This article focuses on three essays published on the work of Samuel Taylor Coleridge and Immanuel Kant by the theologian and scholar, Lewis Edwards, in the *Traethodydd* between 1846 and 1853. Edwards is considered here as representative of the religious leaders of Wales in the second half of the nineteenth century. His work is examined for evidence of attitudes towards the philosophical developments of the period which could offer an explanation for his failure to defend Welsh language and culture in the face of the spread of English.

The article argues that Edwards’ commitment to the speculative reasoning on which contemporary Calvinist theology was based prevented him from responding directly to the intellectual challenge represented by modern thought. In the three articles considered here, which present Kant’s thought as expressed in the first *Critique*, together with Coleridge’s philosophical theology as it is presented in his *Aids to Reflection*, we find clear evidence of Edwards’ unwillingness to accept any challenge to Calvinist philosophy. The picture he presents of the work of these two authors is defective and misleading. A major part of both Kant’s *Kritik* and Coleridge’s *Aids* is a destructive criticism of the baseless pretensions of speculative reason. Edwards chooses to ignore this entirely, so as to maintain his belief in the power of the human intellect to intuit truth without reference to empirical evidence.

It is argued here that this wilful blindness to modern thought was an important factor in motivating the intellectual treason of which Edwards and his contemporaries stand accused. It is also suggested that this treason undermined not only Welsh language and literature, but also the Calvinist religion Edwards was determined to defend. In refusing to face the challenge of modern thought, Edwards left his students with no means of adapting traditional teaching to meet the requirements of a changing sensibility. The eventual result of that was a degree of alienation from the Nonconformist past, the effect of which continues even today.

Keywords: Samuel Taylor Coleridge, Immanuel Kant, Lewis Edwards, Calvinism, Nonconformism.

Yn y Gymraeg mae’r ymadrodd, ‘Brad y Dysgedigion’, a fenthyciwyd o Ffrangeg Julien Benda,¹ yn disgrifio ymddygiad arweinwyr deallusol Cymru yn y cyfnod rhwng 1850 a 1900, a oedd yn caniatáu disodli’r iaith Gymraeg gan y Saesneg ym myd addysg ac ymron pob agwedd ar fywyd a diwylliant y genedl.² Gwnaethant hynny, nid o elyniaeth tuag at eu hiaith a’u diwylliant eu hunain, ond oherwydd eu hymlyniad wrth yr athrawiaeth Galfinaidd. Methasant â deall swyddogaeth hollbwysig yr iaith yn yr integreiddiad rhwng Calfiniaeth

¹ Benda, Julien (1867–1927) (1927), *La Trahison des clercs*. Gweler *Collection Pluriel* (1977), t. 194.

² Gweler, er enghraifft, Jones, Ieuan Gwynedd (1992), *Mid-Victorian Wales: the Observers and the Observed* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 76 a Brooks, Simon (2015), *Pam Na Fu Cymru: Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 25.

a'r diwylliant cenedlaethol a oedd wedi datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod ers y Diwygiad Methodistaidd. Canlyniad hynny yn y pendraw oedd tanseilio'r grefydd Ymneilltuol ei hun, a'r rhan a chwaraeai ym mywyd y genedl Gymreig. Gyda'r iaith Saesneg, ysgubodd hydeimledd dyneiddiol ar draws y wlad a dorrodd afael yr athrawiaeth Galffinaidd ar ddechymyg y bobl. Yn y degawdau a ddilynodd sefydlu'r system addysg Saesneg yng Nghymru yn 1870, gellid bod wedi meddwl bod yr achos ymneilltuol yn parhau i ffynnu. Cynyddodd nifer yr aelodau a'r capeli â'u gwasanaethai'n syfrdanol. Ond yr un mor syfrdanol yn y cyfnod hwnnw oedd y bwlch a agorwyd rhwng athrawiaeth uniongred yr eglwysi hynny a chredoau ymarferol eu haelodau.³ Ac o ganlyniad i hynny, erbyn degawdau cynnar yr ugeinfed ganrif, roedd bwlch arall wedi agor, sef y bwlch rhwng Cymru a'i gorffennol Ymneilltuol hi ei hun.

Y cwestiwn sylfaenol yr wyf am ei archwilio yn yr erthygl hon yw, beth a symbylodd yr ymddygiad hwnnw gan arweinwyr deallusol y genedl? Dyma ddynion a gyfrannodd yn enfawr, nid yn unig i fywyd crefyddol Cymru, ond i bob agwedd ar ei diwylliant. Yn eu plith y mae un yn sefyll allan am ddau reswm gwrthgyferbyniol; un a oedd mor enwog yn ei ddydd am ei gyfraniadau disglair at y diwylliant Ymneilltuol, ac ers hynny mor anenwog am ei gefnogaeth i'r 'Inglis Côs' a'i barodrwydd i dderbyn darfodedigaeth yr iaith Gymraeg ei hun.⁴

Y dyn hwnnw oedd Dr Lewis Edwards, sefydlydd Athrofa'r Methodistiaid Calffinaidd yn y Bala a'r cylchgrawn *Y Traethodydd*. Fe'i cydnabuwyd gan ei gyfoedion yn un o brif ddysgedigion y genedl. O sawl safbwynt roedd yn gymeriad anarferol, ond yn arbennig oherwydd y sicrwydd a'r penderfyniad a ddangosodd ers ei flynyddoedd cynnar. Wrth ystyried ei fagwraeth a'r anawsterau y bu'n rhaid iddo eu goresgyn, roedd ehangder ei orwelion a dyfnder ei wybodaeth yn rhyfeddol. Tua phedair ar ddeg oed ydoedd pan ddechreuodd ei addysg o ddifrif, wrth i'w dad dderbyn nad oedd ynddo ddeunydd naill ai ffermwr neu grefftwr, a'i anfon i'r ysgol yn Llanfihangel.⁵ Cymerodd y daith o Lanfihangel i Brifysgol Caeredin ac oddi yno i'r Bala bedair blynedd ar ddeg arall. Wrth ei ddilyn ar hyd ei yrfa,

³ Gweler Tudur, Alun (1992), *O'r Sect i'r Enwad: Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru, 1840–1890*, traethawd PhD, Prifysgol Cymru, Bangor. Rhy Tudur ddisgrifiad trylwyr iawn o'r broses o ddatblygiad cymdeithasol a'r dirywiad athrawiaethol a ddigwyddodd yn ystod y blynyddoedd a arweiniodd at y diwygiad dramatig yn 1904–5.

⁴ Ceir trafodaeth gytbwys iawn o'r anghytgord rhwng Lewis Edwards ac Emrys ap Iwan (R. Ambrose Jones) parthed yr 'Inglis Côs' yng nghofiant Jones, T. Gwynn (1912), *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwr Cymreig), tt. 86–107. Gweler hefyd Morgan, D. Densil (2009), *Lewis Edwards* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 216–25. Y mae cymhlethdod agwedd Edwards at y ddwy iaith yn hysbys iawn. Fe'i rhannodd â'i frodyr Ymneilltuol yn gyffredinol, a siaradai Saesneg ar yr aelwyd yn aml, gan sicrhau addysg Saesneg i'w plant a chan ysgrifennu llythyrau personol yn yr iaith honno. Gweler R. Tudur Jones (1996), 'Yr Eglwysi a'r Iaith yn Oes Victoria', *Llên Cymru*, 19, 162–3.

⁵ Gweler Edwards, Thomas Charles (1901), *Bywyd a Llythyrau y diweddar Barch. Lewis Edwards MA, DD* (Lerpwl: Isaac Foulkes), t. 13. Magwyd Edwards ar dyddyn ym Mhenllwyn, ger Aberystwyth. Ar ôl cyfnod mewn ysgol ym Mhenllwyn, fe'i hanfonwyd am fwyddyn i Langfihangel-geinau'r-glyn. Bu hefyd yn ddisgybl am gyfnodau byrion mewn ysgolion yn Aberystwyth a Llangeitho, cyn mynd yn fyfyrwr i Brifysgol Llundain yn 1830. Wedyn treuliodd dair blynedd ym Mhrifysgol Caeredin, rhwng 1833 ac 1836.

ceir yr argraff ei fod yn gweld pob newid yn ei amgylchiadau fel cam ar daith yr oedd yn hollol sicr o'i therfyn. Dysgodd Saesneg, Lladin a Mathemateg yn drylwyr yn yr amryw ysgolion a fynychai, cyn crafu digon o arian at ei gilydd i dreulio rhai misoedd yn astudio ym Mhrifysgol Llundain. Erbyn iddo fynd yn fyfyrwr i Brifysgol Caeredin, roedd wedi meistrolï Groeg a Hebraeg a chymerodd gyfle wedyn i dreulio cyfnod yn yr Almaen, y Swistir a Ffrainc er mwyn perffeithio ei wybodaeth o'r Ffrangeg a'r Almaeneg.⁶ Ar ôl dychwelyd i Gymru o Gaeredin yn 1836, derbyniodd gymeradwyaeth eang am ei ddysgeidiaeth ynghyd â chefnogaeth ei enwad gogyfer â'r Athrofa a sefydlodd yn y Bala gyda'i frawd yng nghyfraith, David Charles.

Mae'n rhaid edmygu'r hyder a'r uchelgais a'i cymhellai i greu *Y Traethodydd* yn 1845, nid ar fodel yr amryw gylchgronau Cymraeg, fel *Seren Gomer* a'r *Trysorydd*, ond ar fodel y *Blackwoods Magazine*, *Frasers*, yr *Edinburgh* a'r *Quarterly*. Llwyddodd yn yr amcan hwnnw, yn ddiau. Roedd rhifynnau'r cyfnodolyn yr oedd yn gyfrifol amdanynt yn medru dwyn cymhariaeth ag unrhyw un o'r cyfnodolion rheiny. Roedd ei gyfraniadau ef ei hun at y cylchgrawn yn niferus ac yn amrywiol, yn cynnwys trafodaethau diwinyddol, sylwebaethau ar addysg, gwleidyddiaeth a digwyddiadau cyfoes. Yn yr erthygl hon, canolbwyntir ar dri o'r traethodau hyn, sef ei ddwy erthygl ar waith yr athronydd Almaenig, Immanuel Kant (1724–1804), a'i adolygiad o lyfr defosiynol y bardd/athronydd o Sais, Samuel Taylor Coleridge (1772–1834). Y mae'r traethodau hyn yn amlygu'r ymdrech i agor llygaid ei gyfoedion a'i gyd-grefyddwyr Cymreig i rai o'r syniadau mwyaf herfeiddiol a oedd yn corddi ym myd y meddwl y tu allan i'r gorlan Gymraeg. Ond os ydynt yn awgrymu ei barodrwydd i dderbyn her y byd modern, y maent hefyd yn dangos culni sylfaenol ei feddwl a'i ddiffyg sensitifrwydd i wir natur y sialens a gyflwynwyd ganddynt.

Prif rinwedd Edwards fel addysgwr oedd ei fod yn deall nad oedd modd ymladd yn erbyn y bwganod deallusol a dra-arglwyddiaethai dros feddyliau ieuenctid ei gyfnod ag arfau rhagfarn ac anwybodaeth. Yn yr Athrofa, fel yn nhudalennau *Y Traethodydd*, brwydrai i'w paratoi i wynebu'r bwganod hynny ac ar yr un pryd, yng ngweithiau fel *Cysondeb y Ffydd* ac *Athrawiaeth yr Iawn*, gweithiai'n ddiflino i gysoni'r athrawiaeth Galfinaidd â phrif ddatblygiadau deallusol Oes Fictoria.⁷ Eto i gyd, prin y gellid dadlau bod Edwards yn deall difrifoldeb a chymhlethdod y dasg â'i hwynebai. Ymddengys yn aml ei fod yn methu â gwerthfawrogi nerth y dadleuon yr oedd yn eu gwrthwynebu. Er ei fod yn cydnabod diffuantrwydd a dysgeidiaeth dynion fel Thomas Arnold, Frederick Denison Maurice a Benjamin Jowett, nid ymddengys ei fod yn deall nerth apêl yr agweddau hyn ar feddwl yr oes a oedd wedi eu gorfodi i arolygu'r credoau traddodiadol, a hynny'n aml ar ôl

⁶ Hynny yw, rhwng Mehefin ac Awst 1853.

⁷ Cyhoeddwyd dwy ran o 'Gysondeb y Ffydd' yn wreiddiol yn *Y Traethodydd* yn 1845 a 1846 ond ymddangosodd yn gyflawn yn *Traethodau Duwinyddol* (heb ddyddiad) (Wrecsam: Hughes a'i Fab), tt. 124–220. Cyhoeddwyd trafodaeth Edwards ar Athrawiaeth yr Iawn yn wreiddiol fel deialog rhwng disgybl ac athro yn 'Y Gyfres Gymraeg' yn 1860 (Dinbych: Thomas Gee). Wedyn ymddangosodd gydag amlinelliad o hanes bywyd yr awdur gan T. C. Edwards yn 1887 (Wrecsam: Hughes a'i Fab). Gweler hefyd *Traethodau Duwinyddol*, tt. 5–123.

brwydrau hir a phoenus.⁸ Mae'n rhaid cydnabod dyfnder ei wybodaeth o ddiwinyddiaeth ac athroniaeth, ynghyd ag o feysydd y gwahanol wyddorau a oedd yn ehangu mor gyflym yn y byd cyfoes. Ar yr un pryd, ysgrifennai'n aml fel petai'n credu mai ar arwyneb y meddwl y tyfai amheuaeth yn hytrach nag o ddyfnderau dychymyg y dyn modern. Ni wybu ddim, felly, o'r math ar artaith losg sy'n amlwg ar dudalennau cynnar Thomas Carlyle, neu'r ansicrwydd deallusol dwfn a frigodd yr wyneb yng ngherddi Matthew Arnold ac Arthur Clough.⁹ Credaf fod hyn yn neilltuol amlwg yn ei ymdriniaeth â Kant a Coleridge, dau awdur y mae ei benderfyniad i'w cyflwyno i ddarllenwyr *Y Traethodydd* yn dangos y cyfuniad o feiddgarwch a humanfodddhad a oedd yn nodweddiadol ohono. O ran Kant, y mae'r ddwy erthygl a gyfrannodd Edwards i'r cylchgrawn yn 1853 ymhlith y rhai cyntaf ym Mhrydain i ymgymryd ag asesiad gwrthrychol a thrylwyr, heblaw am yr hyn a wnaethpwyd gan Coleridge yn ei *Biographia Literaria* (1817).¹⁰ Parthed Coleridge ei hun, erbyn 1846, pan gyhoeddwyd erthygl Edwards ar ei 'Athroniaeth a Diwinyddiaeth' yn *Y Traethodydd*, cydnabuwyd ei waith fel un o brif ffynonellau'r tueddiadau modernaid a oedd ar waith ym meddwl Prydain.¹¹ Y mae'r ffaith bod Edwards yn teimlo'r rheidrwydd i ymdrin â'r deunydd hwn, yr oedd ei berygl i'r safbwynt Calfinaidd traddodiadol yn amlwg, yn dangos mor ddifrifol yr ystyriai ei gyfrifoldeb fel addysgwyr. Ar yr un pryd y mae annigonolrwydd yr eglurhad y mae'n ei gynnig o waith y ddau yn bradychu ei wendid sylfaenol fel beirniad ac athronydd.

Y mae'r darlun o athroniaeth Kant a gyflwyna Edwards i ddarllenwyr *Y Traethodydd* yn fympwyol ac yn y pendraw yn dwyllodrus. Tynnodd holl ddeunydd ei ddwy erthygl o rannau

⁸ Thomas Arnold (1795–1842), prifathro enwog Ysgol Rugby a thad y bardd: am ei gyfraniad at drafodaeth grefyddol ym Mhrydain, gweler Tulloch, John (1971), *Movements of Religious Thought in Britain during the Nineteenth Century*, 2^a argraffiad (London: Longmans, Green & Co; Leicester: Leicester University Press), tt. 53–64. Frederick Denison Maurice (1805–72), diwinydd dadleuol a ddiswyddwyd o'r gadair Saesneg a Hanes yng Ngholeg y Brenin, Llundain, yn 1835 ar ôl cyhoeddi ei *Theological Essays*. Benjamin Jowett (1817–93), Athro Groeg yn Rhydychen a phennaeth Coleg Balliol, sy'n enwog fel golygydd Plato ac yn adnabyddus am foderniaeth ei ddiwinyddiaeth. Gweler hefyd Storr, Vernon Faithful (1913), *The Development of English Theology in the Nineteenth Century 1800–60* (London: Longmans, Green & Co.). Ceir sylwadau gan Edwards ar Maurice a Jowett yn y nodiadau ychwanegol i'w draethawd ar Athrawiaeth yr Iawn. Gweler *Traethodau Duwinyddol*, t. 677.

⁹ Thomas Carlyle (1795–1881): gweler *Sartor Resartus*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn *Fraser's Magazine*, 1833–4. Matthew Arnold (1822–88), bardd a beirniad, sy'n enwog am yr agnostiaeth bruddglwyfus a geir mewn cerddi fel *Dover Beach*. Arthur Hugh Clough (1819–61), cyfaill Arnold, bardd a gofir yn bennaf am y dychan crefyddol a geir mewn cerddi fel 'The Latest Decalogue'. Gweler hefyd Storr, *op.cit.*

¹⁰ Coleridge, Samuel Taylor (1817), *Biographia Literaria or Biographical Sketches of My Literary Life and Opinions*, Pennod IX. Gweler Everyman's Library (1906 & 1965) (London: Dent), tt. 79–90.

¹¹ Dau lyfr a gafodd ddylanwad eithriadol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd *Aids to Reflection in the formation of a manly character, on the several grounds of Prudence, Morality, and Religion ...* (1825) a *Confessions of an Inquiring Spirit* (1840). Dywed Storr amdano: 'His apology for Christianity centres round two leading thoughts; first, that Christ came "not to destroy, but to fulfil"; second, that he who would understand the true meaning of religion must admit the existence in man of spiritual depths, which never have been, and perhaps never can be, fully explored'. *Op. cit.*, t. 330. Ni chyfeiria Edwards at y *Confessions ...*, sy'n ymwneud â beirniadaeth ysgrythurol. Y mae ei erthygl yn canolbwyntio ar *Aids to Reflection*.

cyntaf y *Kritik dêr reinen Vernunft* (1781 ac 1787) ('Asesiad o'r Rheswm Pur'),¹² ac yn bennaf o'r rhan gyntaf, sef y 'Transzendente Elementarlehre' ('Y Ddysgeidiaeth Drosynnol parthed Elfennau').¹³ Dewisodd anwybyddu ail ran y *Kritik*, 'Die transzendente Dialectik' ('Y Ddialectig Drosynnol') a'r 'Transzendente Methodenlehre' ('Y Ddysgeidiaeth Drosynnol parthed Method') bron yn gyfan gwbl, lle y ceir ymosodiad dinistriol ar resymeg ddyfaliadol a'r amryw ffurfiau ar ffug wybodaeth a oedd yn seiliedig arni. Bwriad Kant yn y *Kritik* oedd cyflwyno'r hyn a alwai yn 'Ddelfrydiaeth Drosynnol', a oedd yn seiliedig ar y ddadl nad oes modd cyrraedd gwybodaeth wrthrychol o bethau fel y maent ynddynt eu hunain. Ni wadai Kant fodolaeth y pethau hyn, ond dadleuai fod ein gwybodaeth ohonynt yn oddrychol i'r graddau ei bod yn dibynnu ar natur ein synhwyrâu a'n cyfarpar meddyliol. Gwrthodai'n ddelfrydiaeth draddodiadol yn gyfan gwbl, a fynnai fodolaeth allanol i'r syniadau a gyfyd yn y meddwl yng ngweithrediad y prosesau rhesymegol. Gwrthodai hefyd y posibilrwydd o unrhyw fath ar sythwelediad meddyliol a allai gynnig gwybodaeth naill ai o'r byd naturiol neu'r uwch-naturiol. Yn lle'r ddelfrydiaeth 'drosynnol' hon, yr hyn a gyflwyna Edwards yn ei erthyglau yw delfrydiaeth Blatonaid, wedi ei chyfuno â'r union sythwelediad y mae Kant yn ymwrthod ag ef. Ni fyddai'n deg, efallai, i ddweud ei fod yn cyflwyno hon fel eiddo Kant ei hun, ond yn sicr nid yw'n gadael ei ddarllenwyr gydag argraff glir o'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddau.

Yn erthygl gyntaf Edwards, ceir disgrifiad trylwyr o ddadleuon Kant parthed delfrydiaeth Amser a Gofod, sef y ddwy ran gyntaf o'r 'Transzendente Methodenlehre' ('Y Ddysgeidiaeth Drosynnol'), lle y darganfu amddiffyniad yn erbyn epistemoleg Locke a sgeptigaeth Hume, a phrawf diamod o'r posibilrwydd o wybodaeth sicr.¹⁴ Y mae'r ail erthygl yn dechrau wrth ailadrodd braslun o'r deunydd hwn – 'Y mae'r synhwyrâu yn rhoddi i ni wrthrychau, ond y

¹² Y mae'r gair '*Kritik*', sy'n cyfateb i'r Saesneg '*Critique*', yn anodd i'w gyfieithu i'r Gymraeg. Rwyf wedi cynnwys y gair 'Asesiad' yma er mwyn cyfleu'r ystyr a esboniodd Kant ei hun yn 1769, fel modd i asesu pethau 'yn ôl rheolau perffeithrwydd'. Gweler y *Critique of Pure Reason* (1998), cyf. Paul Guyer ac Allen Wood (Cambridge: Cambridge University Press), t. 101, n. 6. Hwyrach y byddai'r gair 'Dadansoddiad' yn gwneud y tro'n well ond y mae Kant yn defnyddio'r gair Almaeneg cyfatebol gydag ystyr gwahanol.

¹³ Heblaw am y rheiny sy'n perthyn i Edwards, eiddof i yw'r cyfieithiadau oddi wrth y *Kritik*, ar sail cyfieithiad Saesneg gan Paul Guyer ac Allen W. Wood (1998) (Cambridge: Cambridge University Press), wedi ei gymharu â thestun Almaeneg golygiad 1787, fel a geir yn *Kant's Gesammelte Schriften* (1911), Cyfrol III, a gyhoeddwyd gan Academi Frenhinol Prwsia. Y mae cyfeiriadau yn y troednodiadau'n perthyn i'r golygiadau hynny, y cyfeirir atynt fel 'Cambridge' a 'Berlin'. Defnyddir y gair 'trosynnol' mewn cynifer o gyd-destunau gwahanol yn y *Kritik*, ac y mae'n fanteisiol yma i bwysleisio ei ystyr sylfaenol. Yn yr ystyr hwn, y mae 'trosynnol' wedi ei gyferbynnu â'r gair 'empeiraidd', ac yn cyfeirio nid at sylwedd ein profiad ond at y prosesau sy'n ei wneud yr hyn y mae. Felly y mae'r ymadrodd 'delfrydiaeth drosynnol' yn tynnu sylw at y ffaith fod ein gwybodaeth o'r byd – beth bynnag fo hwnnw ynddo ef ei hun – yn dibynnu ar strwythur ein synwyrusrwydd a'n cyfarpar meddyliol. Gweler Alison, Henry E., *Kant's Transcendental Idealism* (1983) (New Haven & London: Yale University Press), tt. 6–7.

¹⁴ John Locke (1632–1704); David Hume (1711–16). Gweler Locke, John (1690), *Essay concerning Human Understanding, in four books* (London: Printed for Theo Basset) a Hume, David (1739), *Treatise of Human Nature: being an Attempt to introduce the experimental Method of Reasoning into Moral Subjects* (London: A. Millar, Edinburgh: A. Kinkaid & A. Donaldson).

deall¹⁵ sydd yn meddwl y gwrthrychau hynny’ – ac yn mynd ymlaen i esbonio ‘[sut] y mae dyn yn dyfod yn feistr ar y gwrthrychau, sef trwy eu dwyn dan ddeddfau’r meddwl’: ‘Nid hwy sydd yn gosod deddfau i’r meddwl, ond y meddwl sydd yn gosod ei ddeddfau ei hun arnynt hwy’.¹⁶

Yna, wrth iddo droi at ail ran y *Kritik*, ‘Die Transzendente Logik’ (‘Y Rhesymeg Drosyngnol’), gwelir yr arwydd cyntaf o’r mympwy y mae’n ei ddangos o’r pwynt hwn ymlaen yn ei ymdriniaeth â dadleuon pwysicaf Kant. Anwybydda’n gyfan gwbl y gwahaniaethiad y mae Kant yn ei gyflwyno rhwng rhesymeg ddadansoddol a rhesymeg ddialectig, sy’n rhan hanfodol o strwythur y *Kritik*. Y rhesymeg ddadansoddol, medd Kant, yw archwiliad o elfennau canfyddiad pur y deall, y mae’n ei disgrifio fel ‘rhesymeg gwirionedd’ cyhyd â’i fod yn gweithio ar y deunydd sy’n dod atom drwy’r synhwyrau.¹⁷ Y dialectig yw archwiliad o’r broses o ddefnyddio canfyddiadau pur y deall ‘ar eu pennau eu hunain, a hyd yn oed y tu hwnt i ffiniau profiad’,¹⁸ hynny yw, heb ei gyfyngu i ddeunydd synhwyrol. Ystyria Kant y broses hon yn un ddefnyddiol ynddi ei hun, a hyd yn oed yn un angenrheidiol, oherwydd y mae’n caniatáu i ni ymestyn y tu hwnt i ffiniau ein profiad empeiraidd ac i gyrraedd at gysyniadau mwy pellgyrhaeddol. Ond wrth i ni wneud hyn, myn Kant ein bod mewn perygl o wneud defnydd materol o egwyddorion pur sy’n ffurfiol yn unig, ac felly o wneud datganiadau di-sail parthed gwrthrychau nad oes gennym wybodaeth go-iawn amdanynt o gwbl. Wrth ddweud hyn, heriai Kant sylfaen pob system a ddibynnai ar broses o resymu dyfaliadol, gan gynnwys y ffurf ar Galfiniaeth a oedd yn sail i Ymneilltuaeth Gymreig. Dyna’r sialens a symbylai ymron pob symudiad deallusol yn yr oes, gan drawsffurfio diwinyddiaeth ar draws Ewrop.

Yn ei gyflwyniad i’r ‘Dialectig’, esbonia Kant ei fod yn ymwneud â’r ‘rhith naturiol ac anosgoiadwy’, sydd yn ganlyniad anwahanadwy i’r ffordd y mae’r meddwl dynol yn gweithredu. Yn ôl ei esboniad ef, y mae Rheswm, er ei fod yn gweithredu ar lefel uwch o gyffredinolrwydd na’r Deall, eto’n dibynnu ar wybodaeth a ddaw ohono. Os oes a wnelo’r Deall â’r broses o uno ymddangosiadau dan ddeddfau, yna chwilia Rheswm am yr egwyddorion sydd yn ein caniatáu i ymestyn estyniad y deddfau hynny. Esbonia:

¹⁵ Ceir elfen o amwyster yn y ffordd y mae Kant yn defnyddio’r gair ‘deall’ (Almg., ‘verstand’: Saes., ‘understanding’). Ambell dro, y mae’n cyfeirio at ein gallu gwybyddol yn gyffredinol, ond y mae Kant hefyd yn ei ddefnyddio gydag ystyr mwy arbennig er mwyn cyfeirio at y ffordd yr ydym yn ffurfio cysyniadau ar sail argraffiadau empeiraidd di-ffurf. Yn yr ystyr hwn, y mae’n gwahaniaethu rhwng ‘Deall’ a ‘Rheswm’ fel dwy agwedd ar y gallu gwybyddol. Yn ôl esboniad golygyddion cyfieithiad Gwasg Prifysgol Caergrawnt: ‘*Understanding will be the source of non-empirical categories or “pure concepts of the understanding” that must be applied to data furnished by the senses to yield empirical knowledge ... Reason will be a further faculty, which has a legitimate logical use insofar as it links judgements constituted with concepts of the understanding into more complex, inferential structures*’, tt. 40–1. Cydnabyddir y gwahaniaeth sylfaenol hwn gan Coleridge ac Edwards ill ddau. Yma ceir priflythyren pan ddefnyddir y gair gyda’r ystyr arbennig hwn.

¹⁶ *Traethodau Llenyddol* (heb ddyddiad) (Wrecsam: Hughes a’i Fab), t. 254. Mewn dyfyniadau o weithiau Edwards mae’r sillafu wedi ei ddiweddarau.

¹⁷ Cambridge, t. 199: Berlin, t. 82.

¹⁸ *Ibid.*

Felly ni chyfeiria [Rheswm] erioed naill at brofiad neu wrthrych, ond yn hytrach at y Deall, er mwyn rhoi undod *a priori* trwy gysyniadau i amgyffredion gwasgaredig y Deall, y gallo ei alw yn ‘undod Rheswm’, sy’n hollol wahanol i unrhyw undod y gellir ei gyrraedd trwy gyfrwng y Deall.¹⁹

Gwreiddyn ein tuedd i gamddefnyddio Rheswm, medd Kant, yw ein bod yn cymryd yn ganiataol bod rheolau a thechnegau meddwl goddrychol yn ddilys gogyfer â meddwl gwrthrychol, gan ein caniatáu i wneud datganiadau am bethau sydd y tu hwnt i’n gwybodaeth sicr. Gan fod Kant yn credu bod y tueddiad hwn yn anwahanadwy o ddefnydd Rheswm, y mae’n benderfynol i’w olrhain i’w wreiddiau ym mhroses y meddwl. A dyna sy’n pennu strwythur a sylwedd y *Kritik* o’r pwynt hwn ymlaen, gan gynnwys yn gyntaf ddisgrifiad byr o’r cysyniadau o Reswm Pur y mae hefyd yn cyfeirio atynt fel ‘Syniadau Trosgynnol’, ac yn ail, ddadansoddiad o bob agwedd ar y gwyrddroadau rhesymegol y mae’n credu iddynt danseilio metaffiseg a diwinyddiaeth ar hyd yr oesoedd.

Er iddo anwybyddu dadl ganolog y ‘Dialectig’ yn gyfan gwbl, roedd y ‘Syniadau Trosgynnol’ yn bwysig i Edwards, oherwydd roedd yn bosibl eu dehongli yn nhermau delfrydiaeth draddodiadol, er nad oedd y cyfryw ddehongliad yn ddilys o fewn fframwaith delfrydiaeth drosgynnol Kant. Cyflwynodd Kant y syniad trosgynnol fel elfen angenrheidiol yn y meddwl, sy’n ein caniatáu i ystyried profiad mewn perthynas â’r cysyniadau o’r diderfyn a’r diamodol, er na allai hynny fod yn bosibl o safbwynt ymarferol. Os, meddai ef, y medrwn wirio’r syniadau trosgynnol yn erbyn profiad go-iawn, gallwn feddwl amdanynt fel cysyniadau cywir. Ond heb hynny, maent yn dwyllresymeg.

Nid oes sôn am y rhybudd hwn yng nghyflwyniad Edwards, lle y mae syniadau trosgynnol yn ymddangos fel gwirioneddau uwch na chynnyrch y Deall:

Cylch y deall yw’r byd anianyddol a’i ddeddfau. Ond yr ydym yn ymwybodol fod dyn yn ymgyrraedd at wirioneddau llawer uwch, a’r gallu i gyrraedd gwybodaeth o’r gwirioneddau hynny yw Rheswm. Dyma’r gwirioneddau yr oedd Plato yn son cymaint amdanynt, fel yn meddu hanfodiad sefydlog, tra y mae ymddangosiadau o bob math yn myned heibio.²⁰

Ar hyd y ddwy erthygl cawn dystiolaeth o’r un strategaeth, sy’n seiliedig ar gamddehongli dirnadaeth fel gwybodaeth. Felly yn yr erthygl gyntaf, fe’i cawn yn cyflwyno gwahaniaethiad Kant rhwng *dirnadaeth* bur a dirnadaeth empeiraidd fel *gwybodaeth* bur ac empeiraidd:

Wrth wybodaeth bur y meddylir y wybodaeth sydd yn tarddu o’r meddwl ei hun; wrth wybodaeth brofiadol y meddylir yr hyn sydd yn dyfod i ni trwy

¹⁹ Cambridge, t. 389; Berlin, t. 239.

²⁰ Edwards, *Traethodau Llenyddol*, t. 263.

brofiad; ac o ganlyniad y mae'r gwahaniaethiad hwn yn ymddibynnu ar yr olwg a gymerir ar ddeilliad meddylddrychau. Dyma wreiddyn y ddadl ym mhob oes er dyddiad Plato. O'n rhan ni, yn hytrach na phriodoli'r cwbl i'r argraffiadau sydd yn dyfod trwy'r synhwyrâu corfforol, byddai yn haws gennym gymryd cyfundraeth Plato yn ei chrynswth, a golygu ein holl wybodaeth yn atgofiad o'r hyn oedd yn y meddwl mewn rhyw gyflwr blaenorol. Nid yw hyn mor afresymol ag y mae y rhan fwyaf o'r beirniaid yn ceisio ei ddisgrifio. I'r gwrthwyneb, er bod Plato yn myned yn rhy bell wrth gynnig ceisio esbonio'r ffaith, eto y mae cnewyllyn y ffaith ei hun yn aros yn anwadadwy, sef mai yng nghyfansoddiad creiddiol y meddwl y mae i ni edrych am elfennau sylfaenol ein meddylddrychau.²¹

Y mae cyflwyno delfrydiaeth Plato ar sail camddehongliad o dermau sylfaenol athroniaeth Kant yn awgrymu bod Edwards yn ddall i unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd â'i ragfarnau personol. Dallineb yn unig a all esbonio'r ffaith ei fod yn anwybyddu'r hyn y mae Kant ei hun yn ei ddweud am Plato yn yr union adrannau o'r *Kritik* y mae'n dyfynnu ohonynt. Sut arall y gallwn esbonio'r ffaith ei fod yn sôn am y gwahaniaethiad a wna Kant rhwng dirnadaethau analytig a synthetig, heb sôn am y dadleuon sy'n arwain ato, lle y rhoddir Plato gerbron fel enghraifft o'r athronydd sy'n hedfan y tu hwnt i bob profiad posibl er mwyn gwneud datganiadau di-sail 'heb archwiliad blaenorol i allu Rheswm gogyfer â thasg mor fawr':²²

Wedi ei gyfareddu ... gan allu Rheswm, y mae'r ysgogiad i ymledu'n mynd dros y tresi. Gall y golomen ysgafn, wrth deimlo gwrthiant yr awyr y mae'n torri trwyddo, gael y syniad y gallai wneud hyd yn oed yn well mewn gofod heb awyr. Yn yr un modd, rhoddodd Plato'r gorau i fyd y synhwyrâu oherwydd y gosodai ffiniau mor gyfyng i'r deall, a beiddiodd fynd y tu hwnt iddo ar adain syniadau, yng ngofod gwag y deall pur. Ni sylwodd na symudai ymlaen o ganlyniad i'w ymdrechion, oherwydd nad oedd ganddo ddim gwrthiant, dim cynhaliath, fel petai, trwy ba gyfrwng y gallai gryfhau ei hun ac y gallai ymateb iddo er mwyn canolbwyntio ei allu a dod â'i ddeall i weithredu.²³

Tua diwedd ei erthygl, cyfeddyf Edwards fod Kant yn iawn i fynnu nad oes a wnelo Rheswm â gwrthrychau, ond yn hytrach ag egwyddorion. Serch hynny, y mae'n anfodlon derbyn yr argyhoeddiad sy'n sylfaenol i holl ddadl y *Kritik*, sef nad oes gennym gyfiawnhad dros ddefnyddio'r Rheswm i gynnal dyfaliadau nad oes modd i ni eu gwireddu yn erbyn ein profiad. Felly y mae'n medru beirniadu Kant am beidio bod yn ddigon 'Platonaid':

²¹ Ibid., t. 243.

²² Cambridge, t. 139: Berlin, t. 31.

²³ Cambridge, t. 140: Berlin, t. 32.

[H]ynny yw, nid yw yn rhoddi lle digon mawr i'r egwyddorion y mae Rheswm wedi ei fwriadu i weithredu arnynt. Yr ydym yn addef mai ei orchwyl yn bennaf oedd traethu am ansawdd y cyneddfau; eto, gan ei fod yn cymryd cymaint o drafferth i ddangos pa beth nas gallai'r Rheswm, buasai yn addas iddo ddangos yn fwy amlwg beth a allai; oblegid, er nas gall darganfod personau na phethau yn uniongyrchol, eto y mae yn alluog i ddarganfod gwirioneddau, y rhai ydynt mewn rhyw ystyr yn meddu mwy o wir hanfodiad na dim arall ond Duw ei hun.²⁴

Rhydd i bawb ei farn, wrth gwrs. Ond pe bai Edwards yn dymuno cyflwyno'r farn honno i'w ddarllenwyr yn *Y Traethodydd*, ac felly yn rhoi iddynt y gallu i bwysu a mesur delfrydiaeth drosgynnol Kant yn erbyn delfrydiaeth empeiraidd Plato, oni ddylai fod wedi trafferthu i greu dadl resymegol er mwyn ei chynnal – a hynny yn lle ei chyflwyno'n anuniongyrchol fel casgliad i drafodaeth y gallai'r darlennydd ei chymryd fel ystyriaeth wrthrychol o waith prif athronydd yr oes.

Diwedda'r erthygl â beirniadaeth arwynebol arall. Pe cyfyngir Rheswm i egwyddorion, dywed y dylai Kant fod wedi cydnabod swyddogaeth Ffydd, fel 'y gallu sydd gennym i weithredu ar wrthrychau anweledig.'²⁵ Ond rhaid ei fod yn ymwybodol o ddamcaniaethau Kant parthed y Rheswm Ymarferol, sy'n cyfiawnhau'r tybiaethau amodol am bethau anweledig nad oes modd i ni fod yn sicr amdanynt drwy gyfrwng y Rheswm Pur. Dim ond drwy gyfrwng y Rheswm Ymarferol, medd Kant, y gellir dod i ben â phroblemau anochel Rheswm Pur, 'Duw, rhyddid ac anfarwoldeb'.²⁶ Hyd yn oed pe na bai ef wedi darllen yr ail *Kritik* (1788), sef *Kritik der praktischen Vernunft* ('Rheswm Ymarferol'), a'r llyfr *Die Religion innerhalb der Grenzen der bloßen Vernunft* (1792) ('Crefydd ar Sylfaen Rheswm yn unig'), byddai Edwards wedi darganfod digon yn y *Kritik* cyntaf i ddeall bod ei feirniadaeth yn ddi-sail. O'r braidd y byddai'n bosibl darllen y *Kritik* heb weld bod Kant yn mynnu mai'r union reswm dros gyfyngu estyniad y Rheswm dyfaliadol oedd achub y posibilrwydd o ffydd ymarferol yn rhyddid dyn a'r gred ym modolaeth Duw yr oedd yn ddibynnu arno:

Felly nid ydwyf yn medru hyd yn oed tybio bodolaeth Duw, rhyddid ac anfarwoldeb er mwyn y defnydd ymarferol angenrheidiol o'm rheswm onid fy mod i ar yr un pryd yn gwadu i'r rheswm dyfaliadol hawl i fewnwelediadau di-sail; oherwydd er mwyn cyrraedd y cyfryw fewnwelediadau, byddai rheswm dyfaliadol yn gorfod honni egwyddorion sydd, a dweud y gwir yn ymwneud yn unig â gwrthrychau profiad posibl ... Felly roedd rhaid imi wadu'r posibilrwydd o wybod er mwyn gwneud lle i ffydd.²⁷

²⁴ Edwards, *Traethodau Llenyddol*, t. 265.

²⁵ Ibid.

²⁶ Cambridge, t. 139; Berlin, t. 31.

²⁷ Cambridge, t. 117; Berlin, tt. 18–19.

Dyna ddatganiad a atseiniai drwy ddegawdau cynharach y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn symbylu sawl datblygiad radicalaidd ym meysydd diwinyddol ac athronyddol, ac yn eu plith Ddelfrydiaeth a Diwinyddiaeth newydd yr Almaen. Ond yr hyn sy'n gyffredin rhwng y datblygiadau hynny yw'r ffaith eu bod yn chwilio am sylfaen newydd i'r wybodaeth am natur pethau ynddynt eu hunain a wadwyd gan Kant. Nid oedd Edwards yn rhydd i ymateb i'r sialens yn yr un ffordd. Troes at Kant yn y lle cyntaf er mwyn darganfod seiliau i'r rheswm dynol fel cyfrwng i ymestyn at wybodaeth sicr am bethau anweledig. Ni fedrai gydnabod ffydd a orffwysai ar wybodaeth amodol yn unig.

Credai Edwards iddo ddarganfod tystiolaeth bod dyn yn medru cyrraedd gwybodaeth sicr am natur Duw a'i ddeddfau yng ngwaith Coleridge, ond methodd â chynnal ei ddadl heb yr un math ar wyrdroadau ag a gafwyd yn ei gyflwyniad o'r *Kritik*. Yn ei erthygl ar 'Athroniaeth a Duwinyddiaeth Coleridge', y mae'n disgrifio sut roedd darllen yr *Aids to Reflection* yn ddyn ifanc yn Llundain neu Gaeredin wedi ei alluogi i ddianc rhag cyfyngderau athroniaeth fecanyddol a chyrraedd dealltwriaeth gadarn o allu dyn i ymestyn at wirionedd diamod dan ddylanwad Ysbryd Duw. Darllen Coleridge, meddai, a agorodd ei lygaid i'r 'byd mawr oddi fewn' i ddyn, 'yr hwn sydd yn rhan o fyd yr ysbrydoedd, ac o'r hwn y gellir cael golwg yn awr ar sylweddau a gogoniant diderfyn tragwyddoldeb'.²⁸ Esbonia ymhellach mai dyna a alluogai Pythagoras, Kepler a Newton i ddeall gwir ddeddfau natur,²⁹ sef trwy anwybyddu tystiolaeth y synhwyrâu a chan ymroi'n gyfan gwbl i fyd y meddwl. Yno, dywed Edwards, y ceir nid yn unig yr egwyddorion sy'n ein galluogi i gyfuno gwrthrychau a gwahaniaethu rhyngddynt, ond ffynhonnell y gwirionedd ei hun. Trwy gyfrwng ei feddwl, medd Edwards, gan adleisio llyfr *Genesis*, y mae dyn yn medru rhoi ei ddelw a'i ddeddf ei hun i holl fodau'r bydysawd: 'Ac er mwyn cadw trefn yn eu plith, ac fel y byddont yn gyfleus i ddyfod ar ei alwad, y mae yn taflu cadwyn ei reswm amdanynt, yn eu huno neu eu gwahanu fel y gwnelo yn orau.'³⁰

Rhan o fwriad Coleridge yn yr *Aids* oedd amddiffyn athrawiaeth Brotestannaidd yn erbyn y sgeptigaeth a oedd yn ganlyniad i epistemoleg Locke a'i ddilynwyr, ond yr un mor bwysig iddo ef oedd ymosod ar resymoliaeth ddiennaid cefnogwyr 'Calfiniaeth Fodern'.³¹ Ynghyd â'i sylwadau ef, y mae'r llyfr yn cynnwys cyfres o wirebau wedi eu dethol o weithiau'r diwinydd Albanaidd, Robert Leighton. Trefnir y rhain dan dri phennawd, sy'n cynrychioli camau cynyddol y Cristion yn ei daith o fateroliaeth tuag at grefydd lawn; Callineb, Moesoldeb a Chrefydd Ysbrydol. Y ddadl yw bod Callineb yn gyrru dyn tuag at grefydd am resymau sy'n tarddu o ystyriaethau bydol, hunanol; bod Callineb yn arwain at Foesoldeb, sef cyflwr lle y mae dyn yn fwy ymwybodol o'r rhan y mae'r gydwybod yn ei chwarae yn ei brofiad

²⁸ Edwards, *Traethodau Llenyddol*, t. 36.

²⁹ Pythagoras (570–480 CC), mathemategydd Groegaidd; Johannes Kepler (1571–1630) a ddarganfu'r deddfau a reola symudiad y planedau; Isaac Newton (1642–1727), mathemategydd ac astrolegydd a ddarganfu ddeddfau atyniad cyffredinol a disgyrchiant.

³⁰ Edwards, *Traethodau Llenyddol*, t. 36.

³¹ *Aids to Reflection and The Confessions of an Inquiring Spirit ... to which are added His Essays on Faith and the Book of Common Prayer, Etc* (1893) (London: George Bell), t. 104.

mewnol; ac mai cyflawniad y broses hon yw crefydd ‘Ysbrydol’ lle y mae dealltwriaeth lawn o anghenion y natur ddynol yn gyrru’r unigolyn i adnabod ei berthynas â Duw’r Tad a’i ddibyniaeth ar gariad annherfynol y Cyfryngwr.

Rhy Coleridge rôl bwysig i’r Rheswm yn y broses hon, fel ‘*practical reason*’ mewn gwrthgyferbyniad â’r ‘*speculative reason*’ sy’n gweithredu mewn perthynas â ‘formal (or abstract truth)’.³² Y mae’r Rheswm Ymarferol hwn, ‘as the fountain of ideas, and the light of the conscience’, yn gweithio yn ewyllys yr unigolyn, yn arwain dyn at Dduw. Pan fo’r ewyllys yn gyfan gwbl dan arweiniad y gydwybod, gellir ei disgrifio fel ewyllys rheswm a, dywed Coleridge:

reason is then the *spirit* of the regenerated man, whereby the person is capable of a quickening inter-communion within the Divine Spirit.³³

Ychydig o’r cymhlethdod hwn a geir yn yr esboniad a ry Edwards o’r *Aids*, ac yn sicr ni cheir unrhyw sôn am y gwahaniaethiad rhwng rheswm ymarferol a’r rheswm dyfaliadol y mae Coleridge yn ei weld yn gyfrwng i gyrraedd at wybodaeth ddiamwys o natur Duw.

Y mae ymdriniaeth Edwards â dwy adran gyntaf yr *Aids* yn ddigon syml. Rhy nifer o ddyfyniadau, y credir y bydd ei ddarllenwyr yn eu gweld yn ‘dra golau a gwerthfawr’.³⁴ Ond fel y daw at yr ‘Aphorisms on Spiritual Religion’ (‘Gwirebau ar Grefydd Ysbrydol’) y drydedd adran, gwelwn yr un fath o amwyster ag a gafwyd yn ei ymdriniaeth â’r *Kritik*. Ceir yr awgrym cyntaf o hyn tua diwedd ei sylwadau ar y ‘Moral and Religion Aphorisms’ (‘Gwirebau Moesol a Chrefyddol’). Try i ystyried yr hyn a ddywed Coleridge am un o’r pynciau mwyaf dyrys yn y trafodaethau rhwng Calfiniaid ac Arminiaid, sef rhyddid yr ewyllys. Yn naturiol ddigon, pwysleisia’r pwyntiau lle y mae Coleridge yn cytuno â’r uniongredded Calfiniaid. Esbonia, felly, ei farn ‘olau ac eglur, y mae dyn yn analluog i ewyllysio unrhyw ddaioni heb ‘angrheidrwydd anhepgorol’ gwaith tufewnol yr Ysbryd Glân.³⁵ Ond ar yr un pryd, myn na ellid ystyried daliadau Coleridge yn gyflawn heb eu hystyried law yn llaw â dadleuon Jonathan Edwards, a heb nodi bod Coleridge ei hun yn ystyried y diwinydd Americanaidd yn gynrychiolydd ‘Calfiniaeth Fodern’ eithafol. Dywed Coleridge am ddysgeidiaeth Jonathan Edwards ei fod yn cynrychioli ‘*a Will absolutely passive, clay in the hands of a potter, [which] destroys all Will, takes away its essence and definition.*’³⁶ Ond dadl Lewis Edwards yw, er nad yw ewyllys dyn wedi ei gyflyru’n gyfan gwbl gan ffactorau allanol, y mae’n gorfod gweithredu yn ôl gofynion ei natur ef ei hun ac felly mae ei benderfyniadau’n gymysgedd o rwymau a rhyddid, fel y dywed Jonathan Edwards.

Ar ôl y dargyfeiriad hwnnw, daw Edwards i ystyried y gwahaniaethiad a wna Coleridge rhwng Deall a Rheswm, y mae’n ei weld ‘o’r pwys mwyaf’.³⁷ Nid yw’n anodd gweld y

³² Ibid., t. 143.

³³ Ibid.

³⁴ Edwards, *Traethodau Llenyddol*, t. 41.

³⁵ Ibid., t. 45

³⁶ *Aids to Reflection ...*, t. 104.

³⁷ Edwards, *Traethodau Llenyddol*, t. 46.

rheswm dros hynny, oherwydd y mae'n gyfrwng iddo ymestyn ymhellach ei ymosodiad ar athroniaeth a gwyddoniaeth sydd yn gostwng meddwl dyn i'r deddfau sy'n rheoli'r byd materol. Iddo ef y mae'r Deall, sy'n ymwneud yn unig â gwybodaeth empeiraidd, nid yn unig yn is na'r Rheswm, ond yn gyfan gwbl wahanol iddo. Dengys yr enghreifftiau a ry er mwyn esbonio'r gwahaniaethiad ei fod yn meddwl am y Rheswm fel sythwelediad sy'n ein caniatáu i dderbyn yn reddfol wirioneddau sy'n gwrthdaro â thystiolaeth ein Deall. Trwy gyfrwng y Rheswm, medd Edwards, rydym yn gafael yng ngwirioneddau'r Datguddiad Dwyfol yn uniongyrchol, heb broses o ymresymu. Esbonia: 'Y Duw mawr ei hun yw ffnhonnell goleuni: ond 'cannwyll yr Arglwydd', medd yr Ysgrythur, 'yw ysbryd dyn, yr hon sydd yn taflu ei llewych ar y byd allanol, ac yn gwneuthur ei ddeddfau a'i briodoliaethau yn weledig i'r meddwl'.³⁸

Y gwir yw bod gwendid sylfaenol ym meddwl Edwards fel y mae wedi ei amlygu yn y trafodaethau hyn, sef ei amharoddrwydd i wahaniaethu rhwng y sythwelediad sydd yn sail i ffydd a'r argyhoeddiad a ddaw yn ganlyniad i'r gallu rhesymegol. Gwelir hynny'n glir yn y sylwebaeth sy'n arwain at y dyfyniad arall o waith Coleridge yn y fan hon. Dywed fod 'pellter anhraethol' rhwng y Deall, sy'n 'barnu yn ôl y synnwyr corfforol', a'r Rheswm, 'sydd yn gweld trwy greigiau a phridd y ddaear, trwy foroedd a mynyddoedd ... sydd yn cysylltu'r rhannau i gyfansoddi un gwrthrych a hefyd y gwahanol wrthrychau â'i gilydd'.³⁹ Yn ôl Edwards, y mae'r sythwelediad hwn, sy'n 'dwyn dyn i bresenoldeb deddf ei Grëwr' yr un â'r gallu 'i uno gwrthrychau mewn gwahanol leoedd, a digwyddiadau mewn gwahanol amserau, dan un ddeddf, ac yn uno'r deddfau hyn drachefn dan ryw ddeddf uwch a mwy cyffredinol'.⁴⁰ Ond dyma'r union allu rhesymegol y mae Kant a Coleridge yn cyfeirio ato fel y Rheswm Dyfaliadol, y maent yn cytuno nad yw ei weithrediad yn ddilys heblaw am pan fydd yn ymwneud yn y pen draw â phrofiad sy'n seiliedig ar waith y Deall. Mewn perthynas â gallu dyn i estyn at y gwirionedd trwy gyfrwng sythwelediad nad ydynt yn gyfan gwbl gytûn: y mae Coleridge yn dadlau ei fod yn bosibl, pan fydd yr Ewyllys a'r Gydwybod yn cydweithio a bod yr unigolyn o ganlyniad yn agored i ddylanwad yr Ysbryd.⁴¹ Serch hynny, y mae'n bendant iawn yn ei waharddiad o'r defnydd o'r Rheswm Dyfaliadol i gynnal archwiliadau ynglŷn â 'Gwrthrychau Ffydd Grefyddol':

Out of the principles necessarily presumed in all discursive thinking, and which being, in the first place *universal*, and secondly, antecedent to every particular exercise of the understanding, are therefore referred to the reason, the human mind ... forms certain essences, to which for its own purposes it gives a sort of notional *subsistence*. Hence they are called *entia rationalia*: the conversion of which into *entia realia*, or real objects, by aid of the imagination has in all times been the fruitful stock

³⁸ Ibid., tt. 36–7.

³⁹ Ibid., t. 47.

⁴⁰ Ibid.

⁴¹ *Aids to Reflection ...*, t. 143.

of empty theories, and mischievous superstitions, of surreptitious premises and extravagant conclusions. For as these substantiated notions were in many instances expressed by the same terms, as the objects of religious Faith; as in most cases they were applied, though deceptively, to the explanation of real experiences; and lastly, from the gratifications, which the pride and ambition of man received from the supposed extension of his knowledge and insight; it was too easily forgotten or overlooked, that the stablest and most indispensable of these notional beings were but the necessary *forms* of thinking, taken abstractedly.⁴²

Cyn belled â hynny roedd Coleridge, wrth gwrs, yn ddyledus i'r *Kritik*, fel ag yr oedd hefyd gyda'r cysyniad bod defnyddio'r Rheswm Ymarferol ar sail y dybiaeth fod dyn yn ymarfer rhyddid a chyfrifoldeb yn ei fywyd beunyddiol yn hollol ddilys, ac yn wir yn angenrheidiol. Cododd gwreiddioldeb Coleridge yn y cyd-destun hwn o'r ffaith ei fod yn addasu cysyniad y Rheswm Ymarferol fel modd o gydbwysu'r athrawiaeth hanesyddol yn erbyn gofynion ymarferol natur emosynol dyn. Dyna'r rheswm paham ei fod yn feddyliwr mor bwysig yn ei gyfnod, yn symbylu dynion fel Frederick Denison Maurice, Alfred Tennyson a Frederick Robertson – yr holl rai y rhybuddiai Edwards ei ddisgyblion mor gadarn yn eu herbyn.⁴³

Plediai Coleridge yn angerddol am hawl y Cristion i dderbyn gwirioneddau'r Datguddiad fel ffeithiau, heb gael ei ddrysau gan drafodaethau dyfaliadol llafurus sy'n amharu ar ei allu i fyw yng ngoleuni ei gydwybod ef ei hun. Felly, dywed, mewn perthynas ag etholedigaeth, os yw'r Cristion yn gorffwys yn hyderus ar y cariad dwyfol, gan ddisgwyl yn eiddgar i weld marciau iachawdwriaeth ynddo ef ei hun, pwy all ei feio?

But if [he] will ... exchange the safe circle of Religion and practical Reason for the shifting sand-wastes and *mirages* of Speculative Theology; if instead of seeking after the *marks* of Election in himself he undertakes to determine the ground and origin, the possibility and mode of election itself *in relation to God*; – in this case, and whether he does it for the satisfaction of curiosity, or from the ambition of answering those who would call God himself to account ... why God created any men but with fore-knowledge of their obedience, and left any occasion for Election? ... we can only regret, that [he] had not been better instructed in the nature, the bounds, the true purposes and proper objects of his intellectual faculties, and that he had not previously asked himself, by what appropriate sense,

⁴² Ibid., t. 109.

⁴³ Parthed Maurice gweler troednodyn 8. Alfred Tennyson (1809–92); y mae ei alargan i'w gyfaill Arthur Hallam, *In Memoriam A. H. H.* (1850), yn mynegi amheuaeth parthed credoau traddodiadol Cristnogaeth. Dywed Storr (1913) am Frederick Robertson (1816–53), '*If ... no life better mirrors the spiritual conflicts of the fifth decade of the century ... no teacher has more wisely shown how the mental unrest caused by changing conditions of thought may be met*'. (t. 413)

or organ of knowledge, he hoped to secure an insight into a Nature which was neither an object of his senses, nor a part of his self-consciousness; and so leave him to ward off shadowy spears with the shadow of a shield.⁴⁴

O'r braidd y gellid beio Calfinydd am beidio â derbyn yr wrth-resymoliaeth y mae Coleridge yn ei mynegi mewn darnau fel hyn. Ond beth y byddid ei ddisgwyl gan ddyn yn sefyllfa Lewis Edwards (addysgwr hunanbenodedig yr eglwys yr oedd yn aelod ohoni, os nad o'r genedl gyfan) ond cydnabyddiaeth o'r ymdrech a fynegir drwy gydol y llyfr i adeiladu pont rhwng athrawiaeth hanesyddol, Galfinaidd, a seicoleg gythryblus dynion newydd ei oes ei hun. Yr hyn a gynigiai Coleridge i'w gyfnod oedd cyfle i gyfnewid rhesymoliaeth hesb y ddeunawfed ganrif am ddehongliad newydd o grefydd fel adlewyrchiad o natur hanfodol dynoliaeth. Mae'n rhaid bod Edwards wedi synhwyro rhywfaint o hynny pan ddaeth ar draws *Aids to Reflection* yn ei ddyddiau cynnar, ond os felly, digwyddodd rhywbeth wedyn i bylu'r sensitifrwydd erbyn iddo ei gyflwyno i ddarllenwyr *Y Traethodydd*.

Mae'n rhaid ei fod yn ddilys cyfeirio at y methiant hwn fel enghraifft o'r math o frad a ddarganfu Julien Benda o'i amgylch, sef gwyrddroi egwyddorion deallusol er mwyn hwyluso gwerthoedd ideolegol. Yn ddiau, byddai'n anodd amddiffyn Edwards yn erbyn y cyhuddiad iddo fradychu ei swyddogaeth sylfaenol fel beirniad ac addysgwr. O'r braidd y gellid dadlau iddo baratoi darllenwyr *Y Traethodydd* at y sialens â'u hwynebent wrth chwilota tudalennau Kant a Coleridge ar eu liwt eu hunain.

Ffynhonnell y drwg yn achos Edwards oedd natur ei ymlyniad wrth yr athrawiaeth Galfinaidd. Ni welai Galfiniaeth yn system ideolegol allanol iddo ef ei hun, ond yn hytrach yn fframwaith cynhaliol yr oedd ei holl synwyrusrwydd wedi ymffurfio o'i fewn. Ni chredai y dylai ymdeimlad Cristion a'u canfyddiadau athronyddol newid yn ôl cerhyntau cyfnewidiol y byd allanol. Dyna'r rheswm sylfaenol pam na fu modd iddo amgyffred y ffurfiau ar foderniaeth a oedd yn gyfredol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ym Mhrydain a'r Almaen.

Yn y cyswllt hwnnw, un o'r pethau mwyaf dadlennol a ysgrifennodd Edwards yw cyflwyniad i hanes yr athrawiaeth Gristnogol.⁴⁵ Yn y llyfryn bach hwn, ceir brashun meistrolgar a hynod gytbwys o holl ddiwinyddiaeth yr Eglwys o'r dyddiau cynharaf hyd at ei gyfnod ef ei hun, gan derfynu gyda dwy bennod ar y Diwygiad Protestannaidd a'r Diwygiad Methodistaidd. Dyma Edwards ar ei orau fel beirniad hanesyddol, ond ni ddengys unrhyw awgrym o'r agwedd hanesyddol a ymledodd drwy'r byd ers dyddiau Herder a Hegel. Y mae'n hynod ryddfrydol ei agwedd tuag at athrawiaethau'r eglwysi cynnar, a hyd yn oed yr Eglwys Rufeinig gyfredol. Eto i gyd, cyflwyno'r gweddau amrywiol ar yr athrawiaeth Gristnogol hon fel agweddau ar wead cymhleth y gwirionedd a ddatguddir i ddynion yn barhaus, yn hytrach nag amlygiadau o amgylchiadau amrywiol.

⁴⁴ *Aids to Reflection ...*, t. 113.

⁴⁵ *Hanes Duwinyddiaeth* (1889) (Wrecsam: Hughes a'i Fab). Cyhoeddwyd hwn gyntaf yn 1865, fel rhaglith i olygiad newydd o *Drych ysgrythurol: neu gorff o dduwinyddiaeth*, gan George Lewis (1812) (Caer: Jones & Crane).

Y gwir yw bod y rhyddfrydiaeth hon tuag at athrawiaethau gwahaniaethol y cyfnodau gwahanol yn gyfrwng iddo amddiffyn ei hun yn erbyn peryglon hanesyddiaeth. O'i safbwynt hanesyddol ei hun, ac yntau'n ddisgymnydd i'r diwygwyr Protestannaidd a'r tadau Methodistaidd, mae'n rhaid ei fod yn ymwybodol bod y datguddiad Dwyfol yn ymledol. Yn wir, dywed am y Diwygiad Methodistaidd, 'na effeithiodd un diwygiad fwy ar y byd er dyddiau yr Apostolion'.⁴⁶ Os oedd y Diwygiad Protestannaidd wedi pwysleisio 'trefn Duw yn wrthrychol, neu fel y mae yn bod y tu allan i ddyn', meddai, canolbwynt y Diwygiad Methodistaidd oedd 'effaith gwaith Crist yn dufewnol, neu waith yr Ysbryd Glan yn cyfnewid y galon'.⁴⁷ Ond byddai dehongli'r symudiad hwn fel tystiolaeth o'r ffordd y mae meddwl a theimlad dyn yn datblygu o dan ddylanwad cyfnewidiadau ymledol yn ei ddiwylliant neu ei gymdeithas yn agor y drws i egwyddor ganolog Moderniaeth. A'r canlyniad i hynny fyddai'r disgwyliad fod y symudiad yn parhau.

Credaf y cawn esboniad o geidwadaeth gynhenid Edwards yn astudiaeth feistrolgar ei gyfaill a'i gyd-weithiwr, Owen Thomas, o ddatblygiad diwinyddiaeth Galffinaidd yng Nghymru yng nghyfnod eu hieuenctid.⁴⁸ Dangosai John Jones, Talsarn, gwrthrych cofiant Thomas, arwyddion pendant o'r tueddiadau a symbylodd ddiwinyddiaeth fodernaidd ymhob man arall yn Ewrop, wrth bwysleisio cyffredinolrwydd y maddeuant a gynigiwyd gan Grist. Ond yng Nghymru, dehonglwyd y tueddiadau hyn nid fel arwyddion o ymdeimlad newydd mewn byd cyfnewidiol, ond yng nghyd-destun yr ymryson rhwng Arminiaeth a Chalfiniaeth a oedd wedi sugno holl egni pregethwyr a diwinyddion Cymru ers hanner canrif. Terfynwyd y frwydr hon am hunaniaeth yr eglwysi Ymneilltuol Cymreig, nid mewn cyfaddasiad i'r byd newydd, ond yn hytrach mewn ailarddeliad o Galffiniaeth gymedrol, fel a fynegwyd gan Thomas Jones, Dinbych, genhedlaeth ynghynt. Fel y dywed Edwards ei hun am hyn, daeth Jones â'i gyfoedion Calffinaidd yn ôl at 'hen safle y Methodistaidd', o'r safbwynt y gellid dal yr amrywiol olygiadau mewn rhyw fath ar gydbwysedd ymarferol.⁴⁹ O'r safbwynt hwnnw, nid oedd symudiad pellach i fod.

Yn 1850, roedd Calffiniaeth ynghlwm wrth ddiwylliant, hunaniaeth a hyd yn oed wrth iaith y Cymry. Os oedd y Cymry i wynebu'r byd a oedd ohoni a dod i'r afael â'r newidiadau yn eu teimladau, eu moesau a'u dychmygion fel y'u datblygid dan bwysedd y byd hwnnw, roedd angen iddynt allu cyfaddasu i'r grymoedd a hyrwyddai newid drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain. Ni welai Edwards hynny. Ni chredai mai un elfen yn hunaniaeth ei genedl oedd eu Calffiniaeth, ond sylfaen y cwbl, yr oedd angen ei chadw y tu hwnt i gyrraedd grymoedd cyfnewidiol yr oes. A'r cyfrwng i wneud hynny, meddyliai, oedd yr iaith Saesneg y dymunai

⁴⁶ *Hanes Duwinyddiaeth*, t. cxv.

⁴⁷ *Ibid.*, t. cxviii.

⁴⁸ *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cysylltiad â Hanes Duwinyddiaeth a Phregethau Cymru* (1870). Cyflwynwyd y llyfr i Lewis Edwards, 'Fel cydnabyddiaeth cyhoeddus, ar du yr awdur, o'i rwymedigaethau iddo fel ei hen athro'. Gweler yn arbennig Pennod XI, tt. 263–609. Am enghraifft o rai o'r cyhuddiadau a wnaethpwyd yn erbyn John Jones, gweler tt. 613–19.

⁴⁹ *Hanes Duwinyddiaeth*, t. cxxix.

fanteisio arni er mwyn ‘*adapt ourselves to the changes that take place around us*’.⁵⁰ Dyna pam y medrai ddweud, er gwaethaf ei holl ymlyniad i'r Gymraeg;

There is no one who is a greater well-wisher that I am to the English cause, for our continuance as a body depends upon its success.⁵¹

Trwy gyfrwng y Saesneg y gellid nid yn unig sicrhau gafael Calfiniaeth ar fewnfudwyr Saesneg yng Nghymru, ond hefyd ymestyn allan at yr holl eglwysi Calfiniaidd y tu allan i'r wlad, cynghreiriaid naturiol yn y frwydr ddiddiwedd yn erbyn grymoedd y byd. Owen Thomas a roddodd fynegiant croyw i'r uchelgais hwn, o weld '[yr] holl eglwysi Presbyteraidd ... yn cyfansoddi un eglwys fawr Bresbyteraidd',⁵² ond dyna'r weledigaeth a symbylodd Edwards yn ei holl ymdrechion i droi'r Methodistiaid Calfiniaidd yn Eglwys Bresbyteraidd ar fodel Eglwys Rydd yr Alban.

Ceir eironi trawiadol yn yr hanes hwn, sef i Edwards a'i genhedlaeth fethu yn eu bwriad i ddiogelu'r athrawiaeth hanesyddol trwy beidio â bod yn ddigon ceidwadol. Byddai ceidwadaeth drylwyr wedi eu harwain at ddal eu gafael yn yr iaith, a chyda'r iaith 'y cwlwm hwnnw o gredoau, sefydliadau a gwerthoedd' a gynhaliai hunaniaeth y genedl tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁵³ Credent hwy y byddai'r addysg athrawiaethol a geid ar y Sul drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigon i ddiogelu crefydd y Cymry nes y ceid cartref Calfiniaidd parhaus yn y gorlan Seisnig. Nid oeddent wedi rhagweld trylwyredd ac effeithiolrwydd y system addysg Saesneg a dderbyniwyd yn llon. Methasant, felly, gyrraedd eu hamcan. Ysgubodd Moderniaeth i Gymru, drwy'r drws yr oeddent wedi ei agor ac yr oedd ei buddugoliaeth yn fwy oherwydd gwendid yr iaith Gymraeg, gwendid yr oeddent hwy yn rhannol gyfrifol amdano. Trwy ryfedd wyrth, ni fu'r ergyd i'r iaith mor ddifrifol ag y bu i'r athrawiaeth Galfiniaidd. A thrwy gyfrwng iaith, mae modd ailadeiladu'r diwylliant sy'n gyfrwng i hunaniaeth. Eto i gyd, bu dirywiad trawiadol yr athroniaeth Galfiniaidd yng Nghymru – 'y Chwalfa', chwedl Bobi Jones⁵⁴ – yn problemus. Oherwydd hynny bu'r ffurf

⁵⁰ Geiriau a ddefnyddiwyd mewn araith ar achlysur agor capel Saesneg yng Nghaerdydd yn 1867. Dyfynnwyd o Morgan, D. D. (2009), *Lewis Edwards*, t. 181.

⁵¹ Llythyr at R. Davies, Hydref 6, 1870. Gweler Edwards, T. C. (1901), t. 419.

⁵² Gweler J. J. Roberts (1913), *Cofiant Owen Thomas ...* (Caernarfon: D. O'Brien Owen), t. 347. Dyfynnwyd o Morgan (2009), t. 173. Gweler hefyd eiriau Edwards ei hun: '*For my part, I should be glad if we had a Welsh Evangelical Alliance ... With the Presbyterians more especially we ought to cultivate the most intimate relations*'. Edwards, T. C. (1901), tt. 417.

⁵³ Perthyn yr ymadrodd hwnnw i R. Tudur Jones. Gweler Jones, R. Tudur (1981), *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru 1890–1914* (1981), Cyfrol 1: 'Prysurdeb a Phryder' (Abertawe: Tŷ John Penry), t. 32.

⁵⁴ Y mae 'Chwalfa' Bobi Jones yn cyfeirio at y 'dirywio mewn athrawiaeth' a'r dirywiad mewn profiad a chariad crefyddol a welai ef yn ganlyniad i lacio'r ddsgeidiaeth Galfiniaidd y mae'n beio John Jones a Lewis Edwards am gyfrannu ati. Gweler Jones, R. M. (1977), *Llên Cymru a Chrefydd: Diben y Llenor* (Abertawe: Christopher Davies), t. 478 a 483. Cymerai R. Tudur Jones agwedd mwy eangfrydig at y dirywiad crefyddol a diwylliannol a effeithiodd ar bob agwedd ar fywyd yn ail hanner y ganrif, er ei fod yn rhannu safle Calfiniaidd tebyg i Bobi Jones. Dywed, er enghraifft, am y newid a oedd ar gerdded yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw, 'Yr oedd a wnelo'r cwbl â ffydd waelodol y genedl ac ni allai ond dylanwadu maes o law ar ei diwylliant a'i bywyd cymdeithasol' (Jones (1981), t. 81).

ar foderniaeth a enillodd y dydd yng Nghymru yn foderniaeth ddigysylltiad, na chaniatâi i barhad y 'Dychweledigion' y ceir sôn amdanynt yn nrama enwog Ibsen.⁵⁵ Ac effaith hynny oedd cyflwyno elfen o ymddieithrwrch o'u gorffennol Ymneilltuol eu hunain yn seicoleg gyfunol y Cymry sydd, i ryw raddau, yn parhau hyd heddiw.

Llyfryddiaeth

- Alison, H. E. (1983), *Kant's Transcendental Idealism* (New Haven & London: Yale University Press).
- Benda, J. (1977), *La Trahison des clercs, Collection Pluriel* (Paris: Bernard Grasset).
- Brooks, S. (2015), *Pam Na Fu Cymru? Methiant Cenedlaetholdeb Cymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Coleridge, S. T. (1893), *Aids to Reflection and The Confessions of an Inquiring Spirit by Samuel Taylor Coleridge to which are added His Essays on Faith and the Book of Common Prayer, Etc* (London: George Bell & Sons).
- Coleridge, S. T. (1965), *Biographia Literaria or Biographical Sketches of My Literary Life and Opinions* (London: Dent).
- Edwards, L. (heb ddyddiad), *Traethodau Duwinyddol* (Wrecsam: Hughes a'i Fab).
- Edwards, L. (heb ddyddiad), *Traethodau Llenyddol* (Wrecsam: Hughes a'i Fab).
- Edwards, L. (1889), *Hanes Duwinyddiaeth* (Wrecsam: Hughes a'i Fab).
- Edwards, T. C. (1901), *Bywyd a Llythyrau y diweddar Barch Lewis Edwards MA, DD* (Lerpwl: Isaac Foulkes).
- Hume, David (1739), *Treatise of Human Nature: being an Attempt to introduce the experimental Method of Reasoning into Moral Subjects* (London: Printed for John Noon).
- Ibsen, H. (1881), *Dychweledigion: drama deuluaidd yn dair act*, troswyd i'r Gymraeg gan Jones, T. Gwynn, Cyfres y Werin, Rhif II (Abertawe: Morgan a Higgs).
- Jones, Ieuan Gwynedd (1992), *Mid-Victorian Wales: the observers and the observed* (Cardiff: University of Wales Press).
- Jones, R. M. (1977), *Llên Cymru a Chrefydd: Diben y Llenor* (Abertawe: Christopher Davies).
- Jones, R. Tudur (1981), *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru 1890–1914*, Cyfrol 1: *Prysurdeb a Phryder* (Abertawe: Tŷ John Penry).
- Jones, R. Tudur (1982), *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru 1890–1914*, Cyfrol 2: *Dryswch a Diwygiad* (Abertawe: Tŷ John Penry).
- Jones, T. Gwynn (1912), *Emrys ap Iwan: Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr* (Caernarfon: Cwmni'r Cyhoeddwyr Cymreig).

⁵⁵ Y 'Dychweledigion' yn nrama enwog Ibsen yw olion agweddau a chredoau'r gorffennol sy'n parhau i ddylanwadu ar isymwybod unigolion, er eu bod wedi colli eu gafael ar y meddwl ymwybodol.

- Kant, I. (1997), *Critique of Practical Reason*, cyfieithwyd a golygwyd gan Gregor, M. (Cambridge: Cambridge University Press).
- Kant, I. (1998), *Critique of Pure Reason*, cyfieithwyd a golygwyd gan Guyer, P., a Wood, A. W. (Cambridge: Cambridge University Press).
- Kant, I. (1911), *Kritik der reinen Vernunft, Kant's Gesammelte Schriften, Band III* (Berlin: Druck und Verlag von Georg Reimer).
- Kant, I. (1998), *Religion within the Boundaries of Reason*, cyfieithwyd a golygwyd gan Wood, A., a Di Giovanni, G. (Cambridge: Cambridge University Press).
- Locke, John (1689), *An Essay Concerning Human Understanding, in four books* (London: Printed for Theo Basset).
- Morgan, D. Densil (2009), *Lewis Edwards* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Storr, V. (1913), *The Development of English Theology in the Nineteenth Century* (London: Longmans, Green & Co).
- Thomas, Owen (1870), *Cofiant y Parchedig Jon Jones, Talsarn, mewn cysylltiad â Hanes Duwinyddiaeth a Phregethau Cymru* (Wrecsam: Hughes a'i Fab).
- Tudur, Alun, *O'r Sect i'r Enwad: Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru, 1840–90*, traethawd PhD, Prifysgol Cymru, Bangor, 1992.
- Tulloch, John (1971), *Movements of Religious Thought in Britain during the Nineteenth Century*, 2^{il} argraffiad (London: Longmans, Green & Co).